**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 30 MEHEFIN 2025**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Cenwyn ap Tomos, Beti Williams, Sian Cwper, June Jones

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Glyn Griffiths

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 12 Mai 2025.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 12 Mai 2025, yn ddarostyngedig ar gywiro'r gwall dyddiad cyfarfod ynddo.

**Cynnig:** Siân Cwper

**Eilio:** Beti Williams

## 5. Cyflwyniad ar Ynni Lleol, Dafydd Watts

Mynychodd Dafydd Watts er mwyn darparu mwy o wybodaeth ar sut i sefydlu ynni lleol, fyddai'n cynnig pris rhatach ar drydan i'r gymuned.

Yn ffodus mae yna nifer o gynlluniau egni yn y gymuned yn barod, fyddai efo'r potensial i fedru gwireddu hyn.

Mae stad Brondanw sydd yn gweithredu cynlluniau hydro yn lleol wedi cytuno wedi cytuno i drafod y posibilrwydd o fod yn rhan o unrhyw ddarpariaeth ynni lleol yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf.

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau ynni lleol yn cael eu hwyluso drwy Energy Local, ac felly awgrymwyd fod y Clerc yn cysylltu efo nhw am fwy o wybodaeth.

O dderbyn gwybodaeth bellach, gellid ystyried dod â chriw bychan at ei gilydd ar gyfer ystyried y mater ymhellach, yn dilyn cyfarfod nesaf y cyngor cymuned ym mis Medi.

## 6. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 6.1 Y Ganolfan

Mae gan y cyngor cymuned les tymor hir gan Gyngor Gwynedd ar y Ganolfan. Mae'r les yn pennu'r angen i apwyntio nifer o ymddiriedolwyr er mwyn rhedeg Y Ganolfan ar ran y cyngor cymuned.

Mae'r Ganolfan wedi ei chofrestru fel Ymddiriedolaeth gan y Comisiwn Elusennol, ac mae'r rheini'n dweud fod angen apwyntio mwy o ymddiriedolwr, oherwydd ar hyn o bryd does dim ymddiriedolwyr gweithredol.

Os methir apwyntio nifer digonol o ymddiriedolwyr, yna mae'n debyg y bydd yn rhaid dirwyn yr ymddiriedolaeth, ac felly hawliau'r Cyngor Cymuned dros Y Ganolfan, i ben.

Er nad yw'r Ganolan wedi bod yn derbyn unrhyw incwm, mae angen darparu datganiadau blynyddol am y 5 mlynedd ddiwethaf i'r Comisiwn Elusennol.

Fe gytunwyd y dylid cysylltu â'r Comisiwn Elusennol er mwyn eu diweddaru ar y sefyllfa - sef ei bod hi'n amhosibl cael ymddiriedolwyr newydd, a hefyd gofyn i Gyngor Gwynedd beth fyddai oblygiadau ildio'r les.

Y farn gyffredinol oedd y dylid ystyried dyfodol Y Ganolfan beth bynnag, gan fod yna gostau rhedeg cymharol sylweddol yn flynyddol, ond ychydig iawn o ddefnydd ohoni. Rhaid cwestiynu felly a yw'n darparu gwerth am arian.

### 6.2 Goryrru Llanfrothen a Gosod Cyflymder 20 m.y.a.

Fe holwyd Cyngor Gwynedd er mwyn gweld beth oedd yn bosibl yn dilyn cwynion fod cerbydau yn parhau i oryrru drwy Garreg ac yn gyffredinol yn y gymuned. Mae hyn er gwaethaf gosod llinellau gwynion ar ochr y ffordd.

Barn Cyngor Gwynedd oedd bod disgwyliadau'r gymuned yn rhy uchel, a bod angen casglu tystiolaeth bellach am oryrru yn gyntaf.

Cytunodd y Cynghorydd June Jones i holi Cyngor Gwynedd a fyddai'n bosibl cael cyflymder o 30 cyn dod i lawr i 20 wrth ddod i mewn i Garreg o'r Morfa. Ar hyn o bryd mae'r cyflymder yn mynd o 60 i 20. Teimlwyd y byddai gostyngiad mwy graddol yn arafu cyflymder y traffig yn well.

Mae'r heddwas sy'n gweithio o orsaf heddlu Porthmadog wedi cadarnhau y byddai gwn cymunedol yn medru cael ei weithredu gan wirfoddolwyr yn Garreg. Byddai angen gwirfoddolwyr, a phe byddai'r gwn yn dal unrhyw un yn goryrru, byddai llythyr yn cael ei ddanfon yn nodi hynny at

berchennog y cerbyd. Fodd bynnag, does gan hyn ddim grym cyfreithiol, ond gallai fod yn fodd o atal goryrru.

Trafodwyd cais gan drigolyn lleol i osod llwybr cerdded rhwng Lodge Brondanw am dafarn Y Ring. Tra'n cytuno fod y darn yma o'r ffordd yn beryglus ac yn gul does fawr o le yn y dirwedd i osod llwybr yn fan hyn. Yn ogystal, byddai'r costau yn sylweddol, ac yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, annhebygol yw hi y byddai Cyngor Gwynedd yn medru ariannu llwybr o'r fath.

### 6.3 Ffordd Lodge Brondanw am Groesor

Mae Cyngor Gwynedd wedi archebu arwydd 20 m.y.a. i'w osod ger y Lodge cyn ymuno a'r A4085, ac arwydd yn nodi fod y ffordd i fyny am Groesor yn anaddas ar gyfer cerbydau mawr.

### 6.4 Mynwent Tan Lan

Bu'r Cynghorydd Nia Povey mewn cysylltiad efo Beddfeini Madog. Mae 5 bedd yn rhydd ac maen nhw wedi rhoi cymorth i droi'r rhain ar wastad eu cefnau ac wedi eu tacluso drwy eu tynnu ar ben y bedd a rhoi lwmpyn o lechen i'w codi ychydig.

Disgwylir iddynt ddanfon Anfoneb am y gwaith.

Os bydd angen gosod y beddfeini yn sownd, bydd y gost tua £100 yr un. Os yw teuluoedd am wneud hynny, fydd dim gwrthwynebiad, ond mae'n anodd gwybod pwy yw'r teuluoedd agos.

Cafwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i osod mainc er cof am aelod o'r teulu ym mynwent Tan Lan. Cytunwyd i gymeradwyo hynny, cyn belled ag ein bod yn cael llun a lleoliad y fainc yn gyntaf. Byddai'n rhaid i'r aelod o'r cyhoedd ei chynnal a'i chadw a sicrhau ei diogelwch, neu mi fyddai gan y cyngor cymuned yr hawl i'w thynnu oddi yno.

### 6.4 13 Garreg Frech

Mae Adran Gyllid Cyngor Gwynedd wedi dweud eu bod am gael cyngor arbenigol er mwyn bwrw ymlaen efo'r gorchymyn arwystl. Holwyd am ddiweddariad ar y broses, ond parheir i ddisgwyl ymateb.

Wedi hynny, derbyniwyd gohebiaeth gan swyddfa Mabon ap Gwynfor AS, oedd yn nodi fod Adran Treth Cyngor Gwynedd am wneud cais i'r Swyddfa Brisio dynnu'r eiddo oddi ar y rhestr brisio, oherwydd ei gyflwr. Deallir y bydd hyn yn golygu na fydd yr eiddo yn atebol i dalu Treth Cyngor yn y dyfodol, a bydd dyledion y gorffennol yn cael eu dileu yn ogystal.

Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd am eglurhad pellach.

Gan fod y goeden yn 13 Garreg Frech wedi marw, cytunodd y Cynghlrydd June Jones holi'r Parc a fedrent gymryd camau i'w gwneud yn ddiogel.

Deallir fod nifer o drigolion Garreg Frech a'r gymuned am gysylltu efo Cyngor Gwynedd i gwyno am gyflwr 13 Garreg Frech.

**6.5 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen**

Bydd angen gwneud cais i Gronfa Gwynedd Ni erbyn 31 Gorffennaf. £5,000 yw'r uchafswm grant a ddarperir ganddyn nhw.

Mae Cronfa Gymunedol Eryri hefyd yn agored tan 1 Awst, a bwriedir gwneud cais iddyn nhw hefyd.

Mae'r Cynghorydd Siân Cwper wedi prynu ffinials i roi ar bigau'r gysgodfan fws am £25.00.

**6.6 Llwybr Llanfrothen i Benrhyndeudraeth**

Danfonwyd y ddogfen yn dangos cynllun symlach o'r llwybr at Gyngor Tref Penrhyndeudraeth.

Cytunodd Y Cynghorydd June Jones i holi os oeddynt wedi cael unrhyw drafodaeth ar y mater.

**6.7 Casglu Arian Diffribliwyr**

Casglwyd mwy o arian o'r blwch casglu yng Nghroesor dros y 2 fis diwethaf.

**6.8 Arwydd Pont Traeth**

Mae arwydd sydd yn dweud Pont Traeth - Afon Glaslyn bellach wedi ei osod ar ochr Garreg o'r bont ac arwydd yr un fath wedi ei osod gan Gyngor Cymuned Garndolbenmaen ochr Prenteg o'r bont.

**7. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Mai 2025 £541.60. Yswiriant Cenedlaethol £18.69

**6.2** Cyflog Clerc Mehefin 2025 £541.60. Yswiriant Cenedlaethol £18.69

**6.3** Costau banc hyd at 27 Mai 2025 £8.00

**6.4** Yu Energy 8 Mai - £18.27

Yu Energy 9 Mehefin - £19.34

**6.5** Derbyn taliad SumUp i'r banc 6 Mai 2025 - £20.00

**6.6** Derbyn taliad SumUp i'r banc 7 Mai 2025 - £5.00

**6.7** Derbyn taliad SumUp i'r banc 12 Mai 2025 - £8.00

**6.8** Derbyn taliad SumUp i'r banc 15 Mai 2025 - £4.00

**6.9** Derbyn taliad SumUp i'r banc 19 Mai 2025 - £5.00

**6.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 23 Mai 2025 - £5.00

**6.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 29 Mai 2025 - £5.00

**6.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 5 Mehefin 2025 - £2.00

**6.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 6 Mehefin 2025 - £3.00

**6.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 9 Mehefin 2025 - £9.00

**6.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 10 Mehefin 2025 - £7.00

**6.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 11 Mehefin 2025 - £2.00

**6.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 12 Mehefin 2025 - £13.00

**6.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 16 Mehefin 2025 - £8.00

**6.19** Derbyn taliad SumUp i'r banc 17 Mehefin- £4.00

**6.20** Derbyn taliad SumUp i'r banc 23 Mehefin - £19.00

**6.21** Derbyn ffi claddu Pritchard & Griffiths, Claddedigaeth Mynwent Tan Lan, Ebrill 2025 - £2,200.00

**6.22** Derbyn ffi claddu Pritchard & Griffiths, Claddedigaeth Mynwent Tan Lan, Mai 2025 - £2,200.00

**6.23** Talu Anfoneb Michael Kerr, agor bedd mynwent Tan Lan - £450.00

**6.24** Talu Yswiriant 2025/26, Clear Insurance - £1,482.00

**6.25** Talu Anfoneb Snowdonia Fire Protection Y Ganolfan - £187.00

**6.26** Talu Anfoneb Dunn & Ellis, 168163, cyflogres - £65.70

**6.27** Ad-dalu'r Clerc Microsoft 365 - £84.99

**6.28** Balans yn y prif gyfrif 24 Mehefin 2025 £8,604.51

**6.29** Balans yn y cyfrif cadw 24 Mehefin 2025 £35,678.97.

**8. Gohebiaeth**

- Clybiau Ieuenctid Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn gofyn a fyddai gan gynghorau cymuned ddiddordeb mewn sefydlu Clwb Ieuenctid yn yr ardal. Cytunwyd na fyddai gan Gyngor Cymuned Llanfrothen yr adnoddau ariannol i'w gyllido.

- Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru Meirionnydd

Mae Un Llais Cymru yn nodi diffyg presenoldeb gan gynrychiolwyr cynghorau cymuned yn y pwyllgor yma, ac yn gofyn i gynghorau cymuned geisio sicrhau presenoldeb.

Derbyniwyd er gwybodaeth.

**9. Cynllunio**

Dim

**10. Materion Eraill**

**10.1 Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2024/2025**

Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2024/25, a nodwyd adroddiad Cyngor Gwynedd fel yr archwiliwr mewnol.

**Cynnig:** Siân Cwper

**Eilio:** Beti Williams

**10.2 Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2024/25**

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2024/25, yn ddarostyngedig i fan newidiadau.

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Beti Williams

| **Dyddiad y cyfarfod nesaf – 1 Medi 2025 am 7 yr hwyr** |
|---|